Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth I Gleifion**

# Elastigs Gwahanu

**Adran Orthodonteg**

---

Cawsoch elastigs gwahanu (gweler ffigwr 1). Bydd y rhain yn helpu i symud eich dannedd oddi wrth ei gilydd ychydig, i'ch helpu gyda gosod bandiau yn eich apwyntiad nesaf. Os na allwch eu gwisgo, ni fyddwn yn gallu gosod bandiau ar eich dannedd



(Ffigwr 1)

**Ydy elastigs gwahanu'n boenus?**

Gallwch ddisgwyl bod ychydig yn anghyfforddus yn ystod y 24 awr nesaf gan y gall y pwysedd achosi i'r dannedd deimlo ychydig yn sensitif. Os bydd angen, gallwch gymryd poen laddwyr y byddech chi fel arfer yn eu cymryd at ben tost, **ond peidiwch â chymryd mwy nag y mae'r pecyn yn ei ddweud wrthych**.

**Pwyntiau pwysig eraill am eich elastigs gwahanu**

- Peidiwch â phryderu os byddwch chi'n llyncu'r elastigs - nid ydyn nhw'n wenwynig.
- Brwsiwch eich dannedd fel arfer.
- Ceisiwch osgoi losin sy'n glynu neu angen eu cnoi a gwm cnoi.

Os bydd gennych unrhyw broblem gyda'r elastigs, cysylltwch â'r adran gynted â phosibl. Rhif ffôn: 01633 - 234516.